

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Proffil Nwyddau: Mêl


Mêl, Chile, Apicoop



**1.** Mae pobl wedi bod yn casglu mêl ers 10,000 o flynyddoedd. Mae'n fwyd melys sy'n cael ei wneud gan rai bryfed o neithdar blodau. Pan fyddwn yn sôn am fêl, fel arfer rydym yn cyfeirio at y math sy'n cael ei gynhyrchu gan wenyn. Dyma'r math o fêl sy'n cael ei gasglu gan wenynwyr ac y mae pobl yn ei fwyta. Mae'r mêl sy'n cael ei gynhyrchu gan bryfed eraill yn wahanol iawn.



Photo: Willi Schmitz



**2.** Mae gwenyn yn troi'r neithdar yn fêl drwy ei dreulio a'i godi o'u 'stumogau mêl' sy'n wahanol i'w stumogau go iawn. Ar ôl i'r gwenyn ddod yn ôl yn y cwch maen nhw'n gwagio'r neithdar y maen nhw wedi'i gymryd o'r blodau o'u stumogau mel ac yn ei gadw fel ffynhonnell bwyd mewn diliau mêl yn y cwch gwenyn. Yna, bydd y gwenyn yn curo'u hadenydd i wyntyllu aer trwy'r cwch i gael gwared ar lawer o'r dŵr ohono. Wedyn, bydd y gwenyn yn gorchuddio celloedd y diliau mêl â chwyr.

**3.** Yn Chile mae'r cynhaeaf mêl yn parhau o ddiwedd mis Rhagfyr tan ganol mis Ebrill, sef yr haf yn Chile. Cyn y gaeaf, bydd Apicoop yn rhannu bwyd i'r gwenyn (sef siwgr neu rywbeth tebyg). Maen nhw hefyd yn dosbarthu moddion a thriniaethau i sicrhau y bydd y gwenyn yn ddigon cryf pan ddaw'r tymor cynhyrchu mêl.

**4.** Pan fydd y mêl yn cael ei gynaeafu, bydd Apicoop yn ei godi mewn lori ac yn ei gludo i'r gwaith prosesu. Bob blwyddyn, bydd 40 o gynhwysyddion yn cael eu cludo o Apicoop, pob un yn cynnwys 20,000 cilogram o fêl!



Photo: Richard Else

Heddiw, mae'r cadw gwenyn yn fusnes byd eang gyda chychod gwenyn neu wenynfeydd yn cynnwys hyd at 100,000 o wenyn! Blychau coed neu blastig gyda droriau lle mae'r gwenyn yn dod i'r diliau mêl yw cychod gwenyn. Bydd gwenynwyr yn gwisgo siacedi gwyn gyda rhwyd yn cuddio'u hwyneb ac yn eu gwarchod rhag y gwenyn. Mae'n rhaid iddi fod yn dynn oherwydd wyddoch chi byth lle y gall gwenyn ddod i mewn! Mae gwenynwyr hefyd yn gwisgo menig lledr trwchus i warchod eu dwylo. Wrth gynaeafu, bydd gwenynwyr yn defnyddio mwg i ddrysu'r gwenyn yn eu cychod gwenyn ac i'w wneud yn haws i gymryd y mêl.

Rhestr eiriau:

Regurgitation	To bring back up partially digested food.
Gwenyna	Cadw gwenyn.